
| *Rhif:* ***40*** | *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd* | **Gorllewin Bae Caerfyrddin** |
|---|---|---|




**ACM40:Gorllewin Bae Caerfyrddin**




*Harbwr a thraeth Saundersfoot*



*Traeth Monkstone yn darlunio prydferthwch naturiol*



*Amroth – morglawdd a grwynau*



*Parciau Carafannau a choetir ar yr arfordir – Wiseman's Bridge*

## Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal ar arfordir gogleddol a gorllewinol Bae Caerfyrddin. Mae yma arfordir danheddus gyda phentiroedd bychan a thraethau hygyrch gyda bryn a dyffryn yn gefndir gwledig. Saundersfoot yw'r ffocws, a hithau'n gyrchfan fechan, ac mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer hamdden morol a thraeth er bod yna ddarnau gwledig tawelach o arfordir lled-naturiol.

**Nodweddion Allweddol**

Arfordir creigiog Carbonifferaidd Uwch danheddog o glogwyni, traethau creigiog, cyfres o bentiroedd bach a thraethau hygyrch ar ochr ogleddol a gorllewinol Bae llanwol Caerfyrddin.

Cefnfro o fryniau a dyffrynnoedd o dir fferm cymysg a choetir aeddfed cymysg sy'n rhedeg at yr arfordir, yn frith o aneddiadau arfordirol a meysydd carafannau sy'n amlwg ac yn difrïo mewn mannau.

Mae rhai baeau cysgodol wedi eu diogelu rhag y prif wynt.

Ardal sy'n boblogaidd ar gyfer twristiaeth oherwydd hygyrchedd y traethau i gerbydau gyda'r ffocws ar Saundersfoot, Llanrhath a Wiseman's Bridge.

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro'n boblogaidd, gan ddechrau yn Llanrhath a rhedeg ar hyd copa'r clogwyni gan gysylltu'r aneddiadau.

Mae traffig ac ymylon caled i'r arfordir mewn mannau yn lleihau'r ymdeimlad naturiol a'r llonyddwch ond mae'r elfennau hyn i'w cael mewn rhannau gwledig o'r arfordir.

Golygfeydd hir allan at y môr ar draws y bae i'r Gŵyr ar ddiwrnodau clir.

**Nodweddion Ffisegol**

Mae Bae eang Caerfyrddin, sy'n wynebu o'r dwyrain i'r de, yn gaeedig i'r gorllewin. Mae uchder y pentir yn cynyddu tua'r dwyrain <160m UDO, ac yn cynnwys sialau a thywodfeini Carbonifferaidd Uwch sy'n taro dwyrain-gorllewin (Cystradau Glo, Grut Melinfaen), sy'n ildio'u lle i Galchfaen Carbonifferaidd sy'n taro gogledd-de yn y dwyrain ym Marros. Mae dyffrynnoedd afon endoredig yn draenio i'r arfordir o amgylch y bae. Yn gyffredinol, mae bryniau arfordirol yn gorwedd yn agos at yr arfordir. Mae arfordiroedd creigiog, clogwyni hwnt ac yma ar hyd y traethau a chlogwyni ar bentiroedd wedi eu rhwymo gan faeau tywodlyd Saundersfoot a Llanrhath. Mae Traeth Marros yn draeth tywodlyd sy'n ~2km o hyd. Dominyddir ardaloedd rhynglanwol gan draethau tywodlyd (80%) a glannau creigiog (19%). Caiff gwaddodion tywod eu cludo a'u dyddodi gan y gwynt, y tonnau a stormydd, gan symud trwy dyniant, neidiant a daliant. Mae yna rwynau ar yr arfordir gogleddol o amgylch Llanrhath i addasu symudiad deunyddiau. Caiff arfordiroedd creigiog eu herydu trwy sgrafelliad, athreuliad a symudiad hydrolig.

Mae llawr tywodlyd y môr, sy'n fas (<30m), ac ar oledd ysgafn (<1°) yn gorwedd dros graigwely Carbonifferaidd Uwch. Mae'r moroedd wedi eu cysgodi rhywfaint rhag bwysau'r gwynt a'r tonnau, yn enwedig ar hyd yr arfordir sy'n wynebu'r dwyrain. Mae llifau llanwol â gosodiad gogledd-ddwyrain a de-orllewin, ac mae'r cyfraddau hyd at 1.5 milltir fôr yn llif gorlif y gogledd-ddwyrain. Amrediad y llanw yw 7.7m.

Mae Bae Caerfyrddin yn AGA ac mae Bae Waterwynch i Saundersfoot, Arfordir Telpyn ac Arfordir Marros Pentywyn yn SoDdGAoedd ac felly mae yna ddiddordeb sylweddol yn yr ardal o ran gwarchod natur. Mae Bae Caerfyrddin yn Ardal Bwysig ar gyfer Adar ac yn gartref i 33,000 o adar y dŵr sy'n dod yma'n rheolaidd dros y gaeaf. Mae yna gymunedau o fisglod a gwyrain mewn darnau fel yr ardal o amgylch Trwyn Telpyn. Defnyddir hen dwnneli a cheuffyrdd pyllau ar hyd yr arfordir gan ystlumod. Dros y gaeaf, mae yna nifer fawr o fôr-hwyaid du yn casglu oddi ar y lan, ond o fewn golwg i'r arfordir, ac mae gwylanod, piod môr a hutanod y môr yn casglu ar y traeth.

| Dylanwad Diwylliannol |
|---|
| Mae ardal harbwr hanesyddol Saundersfoot yn dyst i'w phwysigrwydd fel porthladd diwydiannol. Bu'n allforio glo carreg o'r 14eg ganrif hyd nes canol yr 20fed ganrif. Erys rheilffyrdd/tramffyrdd y pwll glo fel nodweddion creiriol: mae rhan o'r llwybr yn dilyn y morlin o Saundersfoot i Wiseman's Bridge. Nwyddau eraill a allforiwyd oedd brics tân a haearn crai. Mae Ardal Cadwraeth y dref yn ymestyn tua'r gorllewin o'r harbwr i gynnwys craidd y dref. Caiff ei nodweddion allweddol eu hesbonio yn natganiad yr Ardal Cadwraeth.<br>Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:<br>• PE019 (crug crwn): cymuned: Pentywyn<br>• PE039 (beddrod siambr): cymuned: Eglwys Gymyn<br>• PE053 (tŷ, domestig): cymuned: Eglwys Gymyn<br>• PE321 (capel): cymuned: Ystagbwll<br>• PE458 (tomenni siafft pwll glo): cymuned: St Mary's Out<br>• PE563 (Caeadle Trelessy, amddiffynedig): cymuned: Llanrhath<br><br>Daeth Winston Churchill ar ymweliad â Wiseman's Bridge ym 1943 fel rhan o'r paratoadau ar gyfer D-Day.<br><br>I'r gogledd o Ddinbych-y-pysgod mae mwyafrif yr arfordir yn wledig gyda brithwaith lled-naturiol ar dir arfordirol a chlogwyni ar gefndir o dir pori gyda pheth cymysg a pheth tir âr a choetir collddail ar lethrau serth ac ochrau'r dyffrynnoedd. Mae tir fferm ystad yn amlwg yn y gefnfro. Mae coetiroedd yn hynod o agos at yr arfordir ac mae'r coed yn eithaf mawr ac o uchder aeddfed, gan ddangos bod rhannau wedi eu cysgodi'n weddol rhag y prifwyntoedd. O fewn y matrics gwledig hwn gorwedd yr aneddiadau arfordirol a oedd yn arfer perthyn i'r diwydiant glo ond sydd bellach yn cael eu defnyddio at ddibenion twristiaeth yn bennaf o amgylch Saundersfoot, Llanrhath a Wiseman's Bridge. Yr allwedd i ddatblygiad yr ardal yw argaeledd traethau hygyrch iawn. Ffocws Saundersfoot yw harbwr sydd â maes parcio cysylltiedig ac mae yna feysydd carfannau ar dir gwastad a thir sy'n codi, sy'n arbennig o amlwg ar hyd y morlin hwn. Mewn mannau eraill, mae'r anheddiad yn weddol wasgarog a phrin. Mae'r ardal tir-seiliedig yn gorwedd o fewn ANT1: Arfordir Setledig Saundersfoot.<br><br>Mae caiacio'n parhau ar hyd yr arfordir hwn yn ogystal â physgota môr o gychod ac oddi ar y lan. Maen nhw'n syrffio o amgylch Trwyn Monkstone ac yn hwylfyrddio ar draws y bae. Gwelir hwylio cychod dingi a rhwyfo ar y môr ar hyd Bae Saundersfoot. Mae mordeithio modur a hwyliau yn boblogaidd ar draws yr ardal yn ei chyfanrwydd. Mae teithiau cwch bywyd gwyllt a chyffredinol yn cychwyn o Harbwr Saundersfoot. Mae Saundersfoot a Coppit Hall yn llefydd poblogaidd i angori.<br><br>Mae yna harbwr bach yn Saundersfoot sy'n cynnig cysgod i fflyd fechan o gychod pysgota arfordirol a chychod hamdden ac mae yna lithrfa. Mae yna ardal fawr hefyd ar gyfer storio cychod ar dir caled ger y maes parcio. Mae yna lithrfa yn Coppit Hall hefyd. Mae gweithgareddau ar y traeth yn boblogaidd ar hyd y traethau eang sy'n ymestyn o Saundersfoot i Bentywyn. Mae cerdded yr arfordir ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro, a gwylio bywyd gwyllt, yn arbennig o boblogaidd i'r gogledd o Ddinbych-y-pysgod mor bell â Thrwyn Monkstone ac o Lanrhath i Bentywyn. Mae yna feysydd pebyll a charafannau ar hyd yr arfordir cyfan hwn.<br><br>Mae'r pysgota yn yr ardal yn cynnwys casglu cocos gyda llaw oddi ar Draeth y De, pysgota ar y traeth gyda rhwydau sân a rhwydau traeth, rhwydau wedi eu gosod, dal gwichiaid moch mewn potiau a'r potensial ar gyfer mân-dreillio estyllod. Mae ymylon dwyreiniol yr ardal yn ardal perygl tanio ac ymarfer milwrol Pentywyn. Defnyddir y mor yn bennaf ar gyfer hwylio cyffredinol, a'r sylfaen yw Dinbych-y-pysgod. |
| **Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol** |
| Mae'r arfordir danheddus, onglog hwn sydd, yn ei hanfod, yn wledig yn cynnwys clogwyni, traethau creigiog a baeau a childraethau tywodlyd bach. Mae o raddfa ganolig, yn gaeedig yn gyffredinol ac yn amrywiol, gydag aneddiadau yn torri ar draws y tir yn y rhan yma o'r 'arfordir |

gwyliau'. Yn gyffredinol, mae golygfeydd cytbwys, wedi eu fframio, yn bosib, er, mae’r meysydd carafannau yn elfennau anghydnaws. Mae yna weithgarwch yn y potiau mêl twristaidd ond, mewn mannau eraill, mae'r arfordir yn weddol heddychlon, er, fel arfer mae modd gweld symudiad mewn golygfeydd ar hyd yr arfordir ac allan i'r môr. O gymharu, mae'n ymddangos bod Traeth Marros heb ei ddifetha.

Mae golygfeydd eang yn bosib ar draws Bae Caerfyrddin mor bell â Phen Pyrod ar y Gŵyr pan fydd gwelededd yn glir, ac ar hyd yr arfordir i Ynys Bŷr gyda'r meindwr yn Ninbych-y-pysgod yn dirnod penodol i'r de.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden traeth a morol a llwybr yr arfordir, at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr arfordir o glogwyni, traethau a glannau creigiog sydd, gan fwyaf, heb eu difetha, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â safleoedd hanesyddol yr ardal.

**Rhesymau dros newid**

| Crynodeb | | Rhesymau allweddol dros newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhinweddau arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
| Erydiad arfordirol araf y clogwyni creigiog, yn fwy cyflym wrth gefn y baeau bach.<br>Drifft gwaddodol net cyfyngedig ar y glannau<br>Y cynllun ar gyfer rheoli'r traethlin yw Gwneud Dim Byd mewn ardaloedd o glogwyni creigiog a Dal y Llinell mewn baeau (Llanrhath, Wiseman's Bridge, Saundersfoot). Pwysau datblygiad ar aneddiadau twristaidd. Deellir bod yna gynlluniau i ailddatblygu ardal gyfan Harbwr Saundersfoot.<br>Defnydd hamdden yn arwain at gywasgu ac erydu llwybr yr arfordir a chynefinoedd.<br>Dwysedd twristiaeth/hamdden yn gostwng ymdeimlad heddychlon yr ardal. | Ysblander yr Arfordir | | | | | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad i’r Parc | | | | | | | |
| | Lle i Anadlu | | | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Allwedd** | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig |

**Sensitifeddau allweddol**

Arfordir danheddus o lannau creigiog cymhleth a baeau tywodlyd sy'n ffurfio ymyl arfordirol naturiol.

Pentiroedd a choed yn fframio golygfeydd.

Gorchudd coetir ar yr arfordir a gerllaw.

Brithwaith lled-naturiol ar hyd ymyl yr arfordir gan gynnwys y clogwyni.

Cymeriad hanesyddol aneddiadau gan gynnwys Saundersfoot a'i harbwr.

Golygfeydd allan at y môr, ar draws Bae Caerfyrddin ac ar hyd yr arfordir.

Dynodiadau gwarchod natur gan gynnwys AGA morol a SoDdGAoedd.

Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.

Presenoldeb aneddiadau gwyliau a meysydd carafannau yn tarfu ar gymeriad gwledig ac yn gostwng llonyddwch a harddwch y golygfeydd.

Presenoldeb defnydd hamdden dwys ar draethau gwyliau ac ar draethau eraill ac yn ymestyn ar hyd yr arfordir a'r dyfroedd arfordirol.

Ymyl galed i'r arfordir, gan gynnwys grwynau, yn gostwng yr ymdeimlad naturiol.

Goleuadau sy'n gysylltiedig ag anheddau a heolydd.